Ali-Abbas Ali
Cyfarwyddwr Cystadleuaeth Darlledu
Polisi Cynnwys

Chris Rowsell
Rheolydd, Rheoleiddio
Polisi BBC

**drwy e-bost**

3 Medi 2024

Annwyl Chris,

## BBC Bitesize: Datblygiadau Cam 2 – Asesiad Perthnasedd

Diolch am rannu asesiad perthnasedd y BBC ar ddatblygiadau Cam 2 BBC Bitesize. Ni fydd Ofcom yn gofyn i'r BBC gynnal Prawf Budd y Cyhoedd ac rwy'n ysgrifennu atoch i egluro ein rhesymau.

### Cefndir

Ar 6 Chwefror 2024, cawsom nodyn gan y BBC am Gam 1 ei gynigion i ddatblygu BBC Bitesize, a ganfu fod y cynigion yn rhai 'busnes fel arfer', ac felly nad oedd angen asesiad perthnasedd. Mae datblygiadau Cam 1 yn wahanol i'r rhai a ddaw o dan yr asesiad perthnasedd a'n hasesiad ohono, a nodir yn y llythyr hwn.

Ar 30 Gorffennaf 2024, cawsom asesiad perthnasedd gan y BBC am y datblygiadau Cam 2 arfaethedig i BBC Bitesize a oedd yn cynnwys y canlynol:

- integreiddio offer dysgu Deallusrwydd Artiffisial (AI) trydydd parti;
- archwilio'r potensial ar gyfer rhyngwyneb bot sgwrsio a swyddogaethau asesu; a
- cysoni ap a phlatfform gwe Bitesize i ddarparu cynnig di-dor i gynulleidfaoedd.

Cawn ar ddeall bod y BBC yn bwriadu rhoi'r datblygiadau Cam 2 hyn ar waith o ddiwedd 2024 hyd at 2026/7.

### Ein hasesiad

Rydym wedi ystyried a yw cynigion y BBC yn berthnasol, h.y. a ydynt yn gallu cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Wrth lunio ein barn, rydym wedi adolygu asesiad perthnasedd y BBC, wedi cynnal ein hymchwil desg ein hunain ac wedi ystyried gwybodaeth ychwanegol a gawsom gan y BBC.

Rydym yn nodi, yn benodol, bod y BBC wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid a bod yr adborth wedi bod yn gefnogol i raddau helaeth. Mae'r BBC hefyd wedi addasu elfennau o'i gynnig mewn ymateb i bryderon penodol gan randdeiliaid.

Nodwn hefyd fod y datblygiadau'n canolbwyntio ar gyflwyno swyddogaethau ychwanegol, yn hytrach na darparu mathau newydd o gynnwys. Ar ben hynny, cawn ar ddeall bod myfyrwyr fel arfer yn defnyddio nifer o wasanaethau addysg (gan gynnwys Bitesize) i astudio / adolygu.

I gloi, rydym yn cytuno â’r BBC nad yw’r datblygiadau Cam 2 arfaethedig i BBC Bitesize yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU[1] ac nad ydynt yn newid a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. O’r herwydd, nid yw hyn yn newid sylweddol.

Yn gywir,



Ali-Abbas Ali

[1] Mae’r datblygiadau arfaethedig yn dod o fewn cwmpas cyfredol BBC Ar-lein ac nid ydynt yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU.